**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Gofal Sylfaenol a Chymunedol o'r Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2025.

**Jeremy Miles AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
4 Tachwedd 2025

**Rhan 1**

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cynyddu'r taliadau sydd i'w gwneud drwy system dalebau o ran y costau yr eir iddynt gan gategorïau penodol o bersonau mewn cysylltiad â chyflenwi, amnewid a thrwsio teclynnau optegol.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Bydd y Rheoliadau hyn yn cael effaith ôl-weithredol yn ôl i 1 Ebrill 2025 er mwyn sicrhau bod y cynnydd yng ngwerth y talebau yn cael effaith o'r dyddiad hwnnw fel y cytunwyd yn ystod y negodiadau teirochrog rhwng Llywodraeth Cymru, GIG Cymru ac Optometreg Cymru, yn unol â'r broses arferol a chan bod yn gydnaws â gwasanaethau contractwyr eraill, ac yn darparu, drwy hynny, ddull teg ar draws yr holl gontractwyr gofal sylfaenol.

Amseru'r negodiadau blynyddol sy'n ystyried canlyniad y Bwrdd Cydnabyddiaeth Ariannol Meddygon a Deintyddion yw'r rheswm pam mae'n ofynnol i'r Rheoliadau hyn gael effaith ôl-weithredol, gan ddarparu dull teg ar draws yr holl gontractwyr gofal sylfaenol. Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y daw'r Rheoliadau hyn i rym lai na 21 diwrnod ar ôl i'r offeryn gael ei osod.

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y daw'r Rheoliadau hyn i rym lai na 21 diwrnod ar ôl i'r offeryn gael ei osod.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Gwneir y Rheoliadau yn unol â phwerau o dan adrannau 129, a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ac maent yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Cydnabyddir y dylai grwpiau penodol o'r cyhoedd fod â hawl i gael help tuag at gost sbectolau a lensys cyffwrdd. Bwriad y cynllun talebau yw darparu i gleifion cymwys, gan gynnwys plant a phobl ar fudd-daliadau neu incwm isel, daleb y cânt ei defnyddio naill ai i brynu o ddewis sylfaenol o sbectolau neu ei rhoi tuag at bâr drutach o'u dewis neu fel arall ei rhoi tuag at gost lensys cyffwrdd. Pennir gwerth y daleb yn ôl nerth y presgripsiwn sy'n ofynnol gan y claf.

Mae'r Rheoliadau yn cynyddu gwerthoedd talebau optegol o 1 Ebrill 2025 ac yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn perthynas â thalebau a ddyroddir neu a gwblheir ond sydd heb eu defnyddio na'u derbyn cyn 1 Ebrill 2025.

## 5. Ymgynghori

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus. Fodd bynnag, gweithiodd Optometreg Cymru, gan weithredu fel y corff proffesiynol sy'n cynrychioli optometryddion cymunedol, optegwyr ac optegwyr cyflenwi ledled Cymru, mewn cydweithrediad i ddod i ganlyniad a negodwyd y cytunwyd arno ar werthoedd y talebau drwy drafodaethau teirochrog â Llywodraeth Cymru a GIG Cymru. Mae hyn yn dilyn proses flynyddol sefydledig a chydweithredol rhwng y partneriaid cyflenwi allweddol sy'n defnyddio dull partneriaeth gymdeithasol.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni ystyriwyd bod angen cynnal asesiad effaith rheoleiddiol ynghylch y costau a'r manteision tebygol o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn gan mai cynyddu gwerth y talebau i gynorthwyo cleifion cymwys i brynu, amnewid a thrwsio teclynnau optegol a wnânt yn syml. Nid yw'r ddeddfwriaeth hon yn cael unrhyw effaith ar y dyletswyddau statudol (adrannau 77-79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) nac ar bartneriaid statudol (adrannau 72-75 o'r Ddeddf honno).